

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Gethin Williams (Groes) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ddiwedd yr wythnos ddiwethaf yn dilyn anffawd. Gobeithio y byddi di'n teimlo'n well yn fuan iawn Gethin! Parhawn i gofio hefyd am eraill sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar ac am Kitty Parry (Llanefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari. Yr un yw'n cofion at y rhai hynny sy'n cael triniaethau tymor hir ar hyn o bryd. Cyflwynwn hwy, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Cofiw'n hefyd am Mrs Bessie Owens (Cefn Berain) sydd bellach wedi symud i gartref gofal Llanrhaeadr Hall. Dymunwn Dduw yn rhwydd wrth iddi setlo yno a diolchwn am y gofal y mae hi wedi ei dderbyn dros y misoedd diwethaf tra yn yr ysbyty.
- Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Elin Davies (Saron) a Jonathan Kerry ar eu priodas.

Darlith Dyrchafael ar Daith?

Gan ein bod eleni yn dathlu 300 mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn, mae'n fwriad gennym ninnau ym Mro Aled i nodi'r achlysur arbennig hwn. Cyn gwneud trefniadau pendant, hoffem wybod pwy fyddai â diddordeb petai ein Darlith Dyrchafael eleni yn mynd ar daith i Sir Gaerfyrddin, gan ymweld â Phantycelyn a llefydd eraill o bwys ym mywyd William Williams. Gallem drefnu hefyd i gael ein darlith flynyddol rhywle yn yr ardal, ac aros dros nos (yng Ngholeg Trefeca o bosib?) cyn troi am adre. Mae'n debyg mai yn ystod mis Mai y byddai'r daith yn cael ei chynnal, ond gallwn benderfynu ar ddyddiad pendant wedi gweld pwy sydd â diddordeb. Os oes gennych ddiddordeb, wnewch chi adael i Mair wybod **cyn diwedd mis Chwefror**, os gwelwch yn dda, er mwyn inni gael dechrau gwneud trefniadau naill ai i fynd ar daith, neu i drefnu darlith ym Mro Aled fel arfer? Diolch yn fawr!

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANEFYDD** – Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant i ddilyn yng Nghapel Llanefydd nos lau, Mawrth 2il. Mwy o fanylion i ddod.
- **LLANW** – Mae'r ŵyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Ebrill 17eg–20fed. Rhaid archebu llety **erbyn Chwefror 27ain** os ydych am fanteisio ar y cabanau hunan arlwyol yn Hafan y Môr. Mwy o fanylion yn y taflenni gwybodaeth sydd ar gael, neu ewch i'r wefan llanw.org.

Darllenid Wythnos Nesaf

Actau 9:19-22 (BCND tud.139 / BCN tud.127)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Chwefror 2017

Darllenid y Dydd

Josua 24:14-15

(BCND tud.219 / BCN tud.200)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

'Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas; gwneled dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef.' Gyda'r geiriau yma y rhoddodd Iesu wers werthfawr i'w ddisgyblion ynglŷn â sut i weddio. (Mathew 6:9-13) Dangosodd i ni sut y dylem sylweddoli mawredd ac agosrwydd ein Tad Nefol, a gweddio gan ddymuno'i weld Ef yn cael ei glodfori gyda'i waith yn dod yn fwy a mwy amlwg yn ein plith. Ac wrth i ninnau ddod at ein gilydd ar ddechrau Sul arall, rydym am barhau i gael ein dysgu gan ein Harglwydd Iesu Grist trwy gael ein trawsffurfio wrth adnewyddu ein meddwl er mwyn inni allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef. (Rhufeiniaid 12:2)

Dros yr wythnosau diwethaf cafodd nifer o ddigwyddiadau eu cynnal i gofio trichanmlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn. Er mai fel emynydd yr ydym ni'n tueddu i feddwl amdano'r dyddiau hyn, defnyddiwyd ef yn helaeth gan yr Arglwydd mewn meysydd gwahanol. (Dwi'n siŵr y clywn fwy am hyn yn ystod y flwyddyn!) Wrth i ni gofio am ei gyfraniad arbennig, rydym am ddiolch i Dduw amdano ac am y ffaith fod Cristnogion yn 2017, ac ar draws y byd, yn parhau i gael eu gwefreiddio gan ei emynau hyfryd. Llwyddodd Pantycelyn i gyfleu ysblander unigryw person Iesu Grist a rhyfeddod 'Duw yn marw dros y dyn' mewn modd personol. Nid gwybodaeth Feiblaidd sych oedd ganddo, ond profiad real o waith Duw yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân yn ei garu, yn ei gynnal a'i arwain trwy amgylchiadau anodd bywyd.

Wrth i ni droi at ein darllenid ar y cyd, gwelwn y tebygrwydd rhwng un o themâu cyson Pantycelyn â neges Josua yn annog y bobl i ymroi i addoli'r Arglwydd byw yn hytrach na duwiau'r cenhedloedd o'u cwmpas. A dweud y gwir, mae Josua yn dangos yn glir beth yw'r opsiynau o flaen pobl ym mhob oes: un ai rhoi ein hunain i'r Un a ryddhaodd ei bobl o gaethiweid a'u prynu â gwaed gwerthfawr Un oedd fel oen di-fai a di-nam, sef Crist (1 Pedr 1:19), neu wasanaethu eilun dduwiau. Mae'n hawdd i ni feddwl fod Josua yn esiampl anghyffredin o ffydd, ond dyna alwad pob Cristion heddiw hefyd. I roi'n ffydd yng Nghrist, a byw ein bywydau mewn diolchgarwch i Dduw am ein hachub trwy ras, gan ddyheu am i eraill hefyd ddod i dderbyn Crist fel Arglwydd a Gwardwr. Allwn ni gyd-fynd â'r hyn ddywed Pantycelyn yn emyn 314 Caneuon Ffydd?

*Wel dyma'r gwrthrych cun,
a dyma'r awr a'r lle
cysegraf fi fy hun
yn gyfan iddo fe;
ffarwél, ffarwél bob eilun mwy,
mae cariad Iesu'n drech na hwy.*

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 19^{eg} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau – 23^{ain} ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – Sul 24^{ain} – 26^{ain} ➤ **Penwythnos Ieuencid (Bl. 7-10)** yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn o'r Fro, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Os nad ydych wedi anfon y ffurflen i archebu lle (ynghyd â blaendâl o £10) i Goleg y Bala, rhaid i chi wneud hynny ar frys i sicrhau lle. Mwy o fanylion a ffurflenni ar gael gan Gwion.
- Sul nesaf – 26^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 19^{eg} ➤ Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn mynd i'r Hen Ddeondy i gynnal gwasanaeth byr am 10.30, ac yna bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Yn ystod yr oedfa, byddwn yn diolch am wasanaeth Mr Glyn Williams sydd wedi arwain y canu am 56 o flynyddoedd, a hefyd yn llongyfarch Elgan a Catrin ar ddod yn gyflawn aelodau yn yr eglwys. Croeso cynnes i bawb. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 19^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i bawb o bob oed yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Llun – 20^{fed} ➤ Bydd Cymdeithas Llansannan yn mynd i Noson o Ddramâu yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7.30. Os ydych angen trafniadaeth neu am rannu car, dewch i faes parcio Capel Coffa Henry Rees erbyn 6.30, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 26^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 19^{eg} ➤ Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a bydd Ysgol Sul yno am 10.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 19^{eg} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 19^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Apêl Ethiopia

Os dymunwch gyfrannu i'r apêl uchod, mae amlenni ar gael gan flaenoriaid eich eglwys. Gwnewch unrhyw sic yn daladwy i **“EGLWYSI BRO ALED”**, os gwelwch yn dda. Byddem yn ddiolchgar petaech yn rhoi yr amlen i drysorydd eich eglwys neu i Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF **erbyn diwedd Chwefror**, os gwelwch yn dda, fel y medrwn anfon yr arian ymlaen fel un cyfraniad gan Eglwysi Bro Aled. Diolchwn ymlaen llaw i chi am eich cefnogaeth.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.